**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Mehefin 2024 yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Russell Davies (Cadeirydd), Anthony Eynon (Is-gadeirydd), Anthony Jenner, Dennis Jones, Julian Williams, Rebecca Jaimangal-Jones, Ffion John, Michael Fussell, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

Hefyd yn bresennol ar gyfer cam gweithredu 7: Jo Metcalfe a Brendon

1. **Ymddiheuriadau:** Tudur Lewis

Dymunwyd yn dda i TL wrth iddo adfer o'i driniaeth a phawb yn edrych ymlaen ato'n dychwelyd i'n plith.

2. **Datganiadau o ddiddordeb:**

- FfJ ar gyfer Eitem 5 (cais gan Glwb Pêl-droed Boncath am nawdd)
- DJ a MF ar gyfer Eitem 7 ynglŷn â chais cynllunio PL/07739

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 26/3/2024:**

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2024 yn gywir gan FfJ ac eiliwyd gan MF.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

**Cam gweithredu 1: JM i drafod lleoliad gorau i'r hysbysfwrdd gyda pherchennog Glandy Cross** – mae JM wedi cadarnhau'r lleoliad ar wal siop Glandy Cross gyda'r perchennog. Mae'r prisiau am hysbysfwrdd yn amrywio rhwng £250 - £350. Bydd JM yn ymchwilio ymhellach.

**Cam gweithredu 2: AJ i holi Mike's Quad Bikes yn Efailwen am gyngor** – trafodwyd hyn yng nghyfarfod yr is-grŵp. Y gyllideb ar gyfer prynu offer yw £1,116.20 yn cynnwys TAW. Awgrymwyd prynu strimmer yn Charlie's Caerfyrddin. Bydd AJ yn ymholi ymhellach gyda chwmni yn Nhremain.

**Cam gweithredu 3: JM i holi Amy Goodwin, Ramblers ynghylch offer diogelu i wirfoddolwyr a'r posibilrwydd o Ramblers yn gwneud sesiwn hyfforddiant i wirfoddolwyr cyn dechrau ar y gwaith clirio** – trafodwyd hyn yng nghyfarfod yr is-grŵp; ddim yn barod am wirfoddolwyr eto. Mae Jason Lawday yn cerdded y llwybr fydd angen gwirfoddolwyr i glirio ddydd Gwener yma i weld ble mae'r llwybr yn mynd.

**Cam gweithredu 4: JM i wirio manylion ein hyswiriant ynghylch gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, wrth i wirfoddolwyr gofrestru gyda Ramblers, byddai eu hyswiriant nhw yn eu cyfro** – mae'r mater hwn yn cael ei drafod yng nghyfarfod yr is-grŵp. Yn disgwyl clywed nôl oddi wrth Ramblers Cymru.

**Cam gweithredu 5: JM i holi Dr Stephen Griffiths a fyddai'n bosib cadw'r offer yn un o'i adeiladau allanol** – mae Julian Sommers wedi dweud ei fod yn hapus i gadw'r offer yn ei adeiladau allanol.

**Cam gweithredu 6: Y cyngor cymunedol i ystyried cyfrannu at gynnal a chadw'r ffordd trwy wneud cais am gyllid grant, i gynnwys gwneud gwelliannau i Lwybr y Landsker yn yr ardal hon** – mae JM wedi edrych mewn hen gofnodion y Cyngor Cymuned. Roedd y Cyngor Cymuned yn gwneud cyfraniad tuag at waith cynnal a

chadw'r ffordd heibio Llety ac i Manorgwyn tan 1986 lle gollyngwyd eu cyfrifoldeb oherwydd nad oedd y ffordd yn cael ei defnyddio gan y cyhoedd a chytunwyd cyflwyno 'Gorchymyn Diddymu''. Cadarnhaodd Jason Lawday bod y ffordd wedi cael ei chofrestru dan y Cyngor Sir ers yr 1980au a bod y Cyngor Sir yn gallu gwneud ychydig o waith cynnal a chadw ar y ffordd bob blwyddyn. Cynghorodd y dylai'r rhai sy'n byw lawr y ffordd hon gysylltu'n uniongyrchol â'r Cyngor Sir. Dywedodd hefyd mai cyfrifoldeb y perchnogion tir yw cynnal a chadw'r cloddiau a'r ymylon achos eu bod yn eiddo preifat. Y Cyngor Sir sydd hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw Llwybr y Landsker. Mae'r broblem draeniad ar y llwybr wedi cael ei riportio ac ar yr amserlen waith gyda'r Cyngor Sir. Cytunwyd felly i JM ddrafftio llythyr at Dr Stephen Griffiths yn egluro hyn i gyd a danfon at bawb am unrhyw sylwadau cyn anfon.
**Cam gweithredu: JM ddrafftio llythyr at Dr Stephen Griffiths yn egluro'r sefyllfa a danfon at bawb am unrhyw sylwadau cyn anfon**

**Cam gweithedu 7: JM i wahodd JMetcalfe i'r cyfarfod nesa** – yn bresennol yn y cyfarfod. Dyma grynodeb o'r drafodaeth:

- Dechreuodd JMetcalfe drwy roi ychydig o gefndir i Greener Growth a sefydlwyd ganddi 13 mlynedd yn ôl. Mae'n sefydliad sy'n hyrwyddo lles cymunedol, sy'n cefnogi cymunedau i ymgysylltu â'r awyr agored, yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i bobl ailgysylltu trwy brosiectau cymunedol amrywiol a datblygu sgiliau.
- Mae JMetcalfe yn byw yn Hebron ac yn bryderus iawn ynglŷn â chais Garnwen. Teimlwyd bod angen i'r broses arafu er mwyn caniatáu i drigolion lleol gael amser i gael mynediad i'r holl adroddiadau ac arolygon sy'n cael eu cyhoeddi a'u deall. Nid yw pobl leol yn hapus gyda'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ac yn aml iawn mae'n anodd deall y derminoleg.
- Dywedodd y Cyng DP y gellir cael mynediad at yr holl ddogfennau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin, o dan gais cynllunio Garnwen. Mae'r adroddiadau a'r arolygon ecolegol wedi'u cyflwyno a byddan nhw nawr yn cael eu cyflwyno i bwyllgor a bydd angen ail-ymgynghori.
- Dywedodd y Cyng DP hefyd nad oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yn hyn; yn aros i arolygon pellach gael eu cwblhau. Cynghorodd y Cyng DP i drigolion ymweld â'r wefan yn rheolaidd i gael diweddariadau.
- Mae JMetcalfe yn awyddus i ddod â phobl at ei gilydd er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw gymryd rhan yn y broses a chael eu clywed.
- Awgrymodd y Cyngor i'r trigolion lleol ystyried sefydlu grŵp gweithredu. Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:
- **Camau Gweithredu:**
  - **JMetcalfe i anfon geiriad ynghylch sefydlu grŵp gweithredu at JM a fydd wedyn yn ei anfon ymlaen at bawb oedd yn bresennol yng nghyfarfod cyhoeddus Garnwen ym mis Mawrth. Byddai'r geiriad yn wahoddiad i fynychwyr gysylltu â JMetcalfe os oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r grŵp gweithredu. Ni fyddai cysylltu â mynychwyr yn y ffordd yma yn torri deddfwriaeth GDPR.**
  - **Y Cyng DP i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am broses ymgeisio Garnwen a dyddiadau allweddol pan fyddan nhw ar gael.**

## 4. Diweddariad ar y Prosiect Adfer Llwybrau Troed

Rhoddodd JM y diweddariad canlynol:

- Cyflwynwyd Claim 8 ar 12/5/24, yn hawlio £6K am waith y contractiwr ar lwybr troed 4/17 sydd yn newydd. Daeth y taliad i mewn o'r adran Grant o fewn y 10 diwrnod. Mae Julie Sweet yn darparu adroddiadau i gydfynd â phob hawliad yn fisol.
- Mae'r Claim 9 i'w gyflwyno erbyn 14/6/24. Mae'r contractiwr wedi cyflwyno anfoneb

arall am £6K am fwy o waith clirio ar lwybr troed 4/17. Cytunodd y cyngor i'w dalu cyn gynted.

- Hyd yn hyn, mae £35,760 wedi cael ei wario ar y grant. Gan gynnwys yr anfoneb ar gyfer Claim 9, bydd £41,760 wedi ei wario. Cyfanswm y contractwr yw £56,246 sy'n golygu bod £14,486 ar ôl i gwblhau'r gwaith. Mae'r contractiwr wedi cyrraedd darn anodd lle mae angen croesi'r afon ac yn trafod gyda RD ynghylch y ffordd orau ymlaen.
- Mae Jason Lawday yn cerdded y llwybrau ddydd Gwener i edrych ar y llwybr i Bantyrodyn.
- Mae'r prosiect yn mynd yn dda ac mae cynnydd da yn cael ei wneud ar ddeilliannau'r prosiect yn ymwneud ag ymgysylltu cymunedol h.y. y teithiau cerdded, y grŵp hanes, mae dau ddigwyddiad hyfforddiant wedi cael eu trefnu ym mis Gorffennaf.
- Mae'r ciosg yn cael ei adnewyddu gan wirfoddolwyr ac mae AJ wedi gwneud tipyn o waith arno, yn rhoi primer arno a bydd yn rhoi paneli newydd i mewn cyn bo hir. Pan yn barod bydd yn dal pamffledi gwybodaeth defnyddiol i bobl yr ardal.
- Trafodwyd cais yr is-grŵp am fainc fel man gorffwys ar bwys y ciosg. Cytunwyd ystyried y cais hwn nes ymlaen yn y flwyddyn.
- Trafodwyd cais arall i ofyn i gapel Calfaria Login a fydden nhw'n fodlon newid y geiriad ar yr arwydd yn y maes parcio a dileu'r gair 'preifat' gan fod ymwelwyr yn parcio mewn bylchau caeau oherwydd y gair preifat.
  **Cam gweithredu: RD i drafod geiriad arwydd maes parcio Capel Calfaria Login gyda'r aelodau ymhellach.**

**5. Gohebiaeth**

- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Glwb Pêl-droed Boncath yn gofyn am gefnogaeth ariannol. Cytunwyd peidio â rhoi cyfraniad gan fod y clwb y tu allan i'r gymuned.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Y Cardi Bach am nawdd ariannol. Cytunwyd rhoi yr un swm â'r blynyddoedd blaenorol, sef £250.
- Derbyniwyd e-bost gan Gronfa Codi Cerflun Twm Carnabwth yn gofyn am gyfraniad ar gyfer eleni. Cytunwyd aros i weld faint o grant bydd y Gronfa yn llwyddo i gael cyn rhoi mwy o arian eleni.
- Dosbarthwyd gwybodaeth am hyfforddiant Un Llais Cymru at bawb; pawb i roi gwybod os hoffen nhw gofrestru ar unrhyw sesiwn hyfforddiant.

**6. Diweddariad Cyllid ac Arwyddo Sieciau**

- Mae Archwilio Cymru wedi cwblhau eu harchwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd ar gyfer 22/23. Mae hysbysiad sy'n ofynnol wedi cael ei roi ar ein gwefan ac ar hysbysfyrddau Glandy Cross a Ffynnonwen ac mae'r cyhoedd yn gallu gofyn am gael eu gweld. Mae rhai argymhellion wedi cael eu gwneud a fydd yn cael sylw y flwyddyn yma.
- Rhoddodd JM adroddiad o'r sefyllfa ariannol bresennol:
- – Dechreuodd y flwyddyn ariannol 2024/25 ar £2,710.51. Derbyniwyd praesept cyntaf y flwyddyn ar 26/4/24 sef £2,833.34 a hefyd £6K o'r arian grant, felly roedd cyfanswm o £9,629.06 yn y cyfrif cyfredol ar 26/4/24. Talwyd £6K i'r contractiwr ar 8/5/24, yn gadael £3,626.06. Ar 17/5/24 derbyniwyd ad-daliad gan y swyddfa grant, felly mae £9,626.06 yn y cyfrif cyfredol ar hyn o bryd.

- Arwyddo sieciau
- – Anfoneb Claim 9 y contractiwr £6,000
- – Jamie King am ddiweddaru'r we ar gyfer y tri mis o 1 Gorffennaf i 1 Hydref £150
- – Jamie King am letya'r wefan a thystysgrif SSL am y flwyddyn 1 Mai 2024 tan 30 Ebrill 2025 £110

- Anfoneb Rosemarie Davies, Archwilydd Mewnol £67.50
- Talu Caffi Beca am gyfarfod heno £25
- Taliad hefyd o £250 i'r Cardi Bach
- Felly, cyfanswm o £6,602.50 o daliadau, a fydd yn gadael £3,023.56

- Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr:
  **Cam gweithredu: JM i e-bostio pawb iddyn nhw gadarnhau a fyddan nhw am ei dderbyn ai peidio**

**7. Cynllunio**

- Un cais cynllunio, sef PL/07739 ar gyfer 4 tŷ/byngalo ar dir ar bwys Dolycoed, Efailwen, Clynderwen, SA66 7UY. Ni fynegwyd unrhyw wrthwynebiad. Y dyddiad cau am unrhyw sylwadau yw 13/06/2024.

**8. Diweddariad y Cynghorydd Sir**

- Rhoddodd y Cyng DP ddiweddariad ar y canlynol:
- Cais adolygu ROMP Garnwen (PL/07270): bu'r Cyng DP mewn cysylltiad â'r Swyddogion Cynllunio yn dilyn e-bost gan breswylydd yn mynegi pryder am suon bod y cais yn mynd drwodd heb sgrinio AEA. Gofynnwyd hefyd am ragor o fanylion ynglŷn â chasglu gwybodaeth ecoleg ac archaeoleg ac a oedd data'n cael ei gasglu gan yr holl drigolion â ffynhonnau preifat. Derbyniwyd ymateb gan yr Adran Gynllunio yn rhoi sylw i'r materion a godwyd a rhannwyd hwn gyda'r ymholwr.
- Mae Pont Dolwilym wedi cael ei choncrito erbyn hyn
- Mae cyflwr y ffyrdd dal yn wael mewn mannau e.e. o sgwâr Efailwen i'r ysgol, o Nebo i lawr i Bantycaws ac ar bwys Rhos
- Mae 'Japanese Knotweed' yn mynd i mewn i'r safle picnic yn Ynys Fach
- Pawb i anfon lluniau o unrhyw dipio anghyfreithlon at DP; mae hyn yn dal i ddigwydd ar safle Ynys Fach

**9. Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Mae arwyddion iechyd a diogelwch wedi cael eu rhoi mewn mannau yn ardal y prosiect grant lle mae'r contractiwr yn gweithio.

**10. Bioamrywiaeth**

- Mae RJJ wedi cofrestru ar hyfforddiant Bioamrywiaeth Un Llais Cymru (Modiwl 25, rhan 1).
- Daeth Swyddogion Bioamrywiaeth Cyngor Sir Caerfyrddin i ymweld ag ardal y prosiect ddydd Mercher diwetha a chwrdd â JM a JSweet. Rhoddwyd awgrymiadau a chyngor ynghylch rhai agweddau o fioamrywiaeth a fydd yn bwydo i mewn i'r cynllun gweithredu.
- Mae cynllun gweithredu bioamrywiaeth wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gweithgaredd sydd wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf.

**11. Unrhyw Fater Arall**

- Dywedodd JM bod gan nifer o gynghorau cymuned ffurflen gais am grant lle gofynnir i sefydliad/elusen ei llenwi os am wneud cais am gymorth ariannol. Cytunwyd i JM ddrafftio ffurflen grant yn y lle cyntaf a'i hanfon at bawb.
  **Cam gweithredu: JM i ddrafftio ffurflen grant a'i hanfon at bawb am sylwadau**
- Logo i'r cyngor cymuned: dywedodd JM nad yw'r ysgol wedi ymateb ynghylch dylunio logo. A hoffai'r cyngor ofyn i'r person wnaeth ddylunio logo'r prosiect? Cytunwyd gwneud hyn a chynnig taliad o £50 i'r dylunydd.

**Cam gweithredu: JM i wirio a fyddai cyfraniad o £50 yn dderbyniol gan y dylunydd am ddylunio logo**

12. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Nos Fawrth 30ain Gorffennaf 2024

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 9.00pm*

Arwyddwyd

Cadeirydd: T R Davies ........................................ Dyddiad: 30/07/2024